## Bwletin o Batagonia 12 – Y Gwanaco gan Twm Elias



*Criw o gwanacos ar ochr y ffordd ym Mhenryn Valdez, Ebrill 30, 2022. Bu iddynt neidio dros y ffens yn y cefndir heb unrhyw drafferth.*

Mae'r gwanaco *(Lama guanicoe)* yn un o'r ddau aelod o deulu'r camelod *(Camelidae)* sy'n endemig i dde America. Yr aelod arall yw y ficwna *(Vicugna vicugna)*, sy'n llai o faint, ac sydd i'w gael yn uchel ym mynyddoedd Periw yn bennaf.

Ymestynna cynefin y gwanaco o fynyddoedd yr Andes, o rannau o Periw a Bolifia yn y gogledd hyd Tierra del Fuego yn y de, ac ar draws peithdir Paragonia hyd at Fôr yr Iwerydd yn y dwyrain.

Math arbennig o gwanaco yw y lama *(Lama glama)*, sydd i'w gael fel anifail dof yn unig. Caiff ei fagu ar gyfer cario paciau ac ar gyfer ei wlân. Yn yr un modd, disgynydd o'r ficwna gwyllt yw yr alpaca *(Vicugna pacos)*, sydd, fel y lama, i'w gael fel anifail dof yn unig, ac a fegir ar gyfer ei wlân gwerthfawr.

Mae'r gwanaco yn brif brae i'r piwma, sydd yn fwy cyffredin yn yr Andes, ond sydd i'w cael yn ogystal ar draws y paith – gwelwyd piwma fenyw a'i chyw ar estancia ychydig i'r gorllewin o Borth Madryn ym Mai 2022. Ar un adeg byddai brodorion y paith yn dibynnu ar y gwanaco am gig, crwyn a gwlân i wehyddu eu pochos cynnes at y gaeaf. Byddai cryn fasnachu rhwng y Tehuelche a'r gwladfawyr Cymreig am y nwyddau hyn, a chawsant eu ffeirio am fara'r Cymru.

Pan fethodd cnydau'r Cymry yn nwy flynedd gyntaf y wladfa, a hwythau ar fin rhoi'r gorau iddi a symyd i diroedd gwell yn y gogledd, bu i'r Tehuelche eu cynorthwyo drwy hela gwanacos ar eu rhan. Wrth lwc roedd pethau wedi dod i drefn erbyn y drydedd flwyddyn ac ni bu son am ymadael wedyn.

Methiant fu'r ymgais i ddofi'r gwanaco am ei wlan gwerthfawr am ei fod yn amhosib i'w gadw – gall neidio dros unrhyw ffens gyffredin. Byddai angen ffensus cryf sydd o leiaf 10 troedfedd o uchder, a byddai y rheiny yn rhy gostus i'w sefydlu.

Erbyn heddiw mae gwanacos y paith wedi prinhau yn sylweddol oherwydd gor-hela, ond yn y Parciau Cenedlaethol neu ardaloedd gwarchod bywyd gwyllt, ac ar rai o'r estancias sy'n elwa o eco-dwristiaeth maent yn ffynnu ac yn llawer llai swil o'u cymharu â'r rhai ar y paith agored. Mae'n amlwg fod y gwanacos yn greaduriaid eitha call, ac wedi dod i wybod eu bod yn saffach yn yr ardaloedd gwarchod, lle meant yn llawer mwy goddefgar o bobl.